



Cynnig i gyflwyno Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer y Grant Cymorth Tai

Crynodeb o'r adborth a gasglwyd
drwy ddigwyddiadau ymgysylltu

Ionawr 2023



Cynnig i gyflwyno Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer y Grant Cymorth Tai

Crynodeb o'r adborth a gasglwyd drwy ddigwyddiadau ymgysylltu

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	2
2. Datblygu Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai.....	2
3. Y dull ymgysylltu.....	3
4. Crynodeb o'r adborth a gasglwyd drwy'r digwyddiadau ymgysylltu.....	4
5. Dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r adborth.....	6


1. Cyflwyniad

- 1.1 Cyflwynwyd [Grant Cymorth Tai](#) Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019. Diben cyffredinol y grant yw atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i feithrin y gallu, yr annibyniaeth, y sgiliau a'r hyder i ddod o hyd i gartref sefydlog ac addas a/neu aros ynddo.
- 1.2 Yn 2021, cytunwyd y dylid datblygu Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer y Grant Cymorth Tai er mwyn nodi diben craidd y grant a'i fuddiannau ehangach. Cyn hyn, roedd awdurdodau lleol wedi, ac yn parhau i adrodd yn erbyn canlyniadau a ddiffinnir yn y Fframwaith Canlyniadau Cefnogi Pobl ar gyfer pobl a gefnogir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl etifeddol (sydd bellach wedi'i disodli gan y Grant Cymorth Tai). Felly, bydd y Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer y Grant Cymorth Tai yn olynu Fframwaith Canlyniadau etifeddol y Rhaglen Cefnogi Pobl, a bydd yn nodi diben craidd y Grant Cymorth Tai a'r gwasanaethau cymorth a ariennir ganddo.

2. Datblygu Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai

- 2.1 Ym mis Tachwedd 2021, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai i fynd ati i gydlunio Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer y Grant Cymorth Tai.
- 2.2 Yn ystod gwanwyn 2022, cyflwynwyd drafft cyntaf y Fframwaith Canlyniadau newydd i'r Rhwydwaith Rheng Flaen - rhwydwaith o staff cymorth tai a digartrefedd a gynhelir gan Cymorth Cymru. Croesawyd y dull arfaethedig cyffredinol i sefydlu Prif Ganlyniadau (i adlewyrchu diben craidd y Grant Cymorth Tai) a Chanlyniadau Eilaidd (i adlewyrchu buddiannau ychwanegol gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai) ar y cyfan. Gweler **Diagram 1** isod:

Diagram 1: Dull cysyniadol ar gyfer y Fframwaith Canlyniadau newydd



- 2.3 Yn dilyn yr adborth hwn a'r adborth a gafwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai, mae drafft cyntaf y Fframwaith Canlyniadau wedi cael ei dreialu mewn chwe awdurdod lleol a 32 o ddarparwyr gwasanaethau ers mis Mehefin 2022, am gyfnod o 10 mis, er mwyn llywio'r gwaith o'i ddatblygu cyn ei roi ar waith. At hynny, cynhaliodd Llywodraeth

Cymru gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn ceisio adborth ehangach cyn cadarnhau Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai yn derfynol - gweler **Adran 2.4** isod.

- 2.4 Felly, dylid darllen yr adroddiad cryno hwn ar y cyd â'r adroddiad [Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai](#)

3. Y dull ymgysylltu

- 3.1 Mae'r Fframwaith Canlyniadau Grant Cymorth Tai (GCT) yn offeryn gweithredol i fesur effeithiolrwydd rhaglen grant – o'r herwydd, datblygwyd y fframwaith wedi'i ddiweddarau mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol sy'n gomisiynwyr, darparwyr a gweithwyr rheng flaen gwasanaethau GCT. Yn Hydref 2022 cynhaliodd Llywodraeth Cymru bedwar digwyddiad ymgysylltu rhithwir gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau digartrefedd a thai. Cynhaliodd Cymorth Cymru - mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru - ddigwyddiad ymgysylltu ar wahân i glywed barn staff digartrefedd rheng flaen a staff cymorth tai. Daeth cyfanswm o 190 o randdeiliaid i'r digwyddiadau hyn.
- 3.2 Er mwyn llywio'r trafodaethau yn ystod y digwyddiadau, dosbarthodd Llywodraeth Cymru bapur yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai ymlaen llaw, gan gynnwys cwestiynau penodol ar nodweddion allweddol y Fframwaith Canlyniadau. Yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu, cafodd y rhanddeiliaid y cyfle i drafod y cwestiynau penodol hyn mewn grwpiau bach a rhoi adborth
- 3.3 Ar ddechrau mis Tachwedd 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru hefyd sesiwn drafod gydag awdurdodau lleol a darparwyr cymorth sy'n treialu drafft cyntaf y Fframwaith Canlyniadau.
- 3.4 Bydd yr adborth a gasglwyd drwy'r digwyddiadau ymgysylltu a'r cynllun peilot yn llywio fersiwn derfynol y Fframwaith Canlyniadau cyn iddo gael ei roi ar waith ym mis Ebrill 2023, yn ôl y bwriad – gweler [Fframwaith Canlyniadau Grant Cymorth Tai](#) a gyhoeddir ynghyd â'r adroddiad cryno hwn.

4. Crynodeb o'r adborth a gasglwyd drwy'r digwyddiadau ymgysylltu

4.1 Prif Ganlyniadau

Yn gyffredinol, teimlai'r rhanddeiliaid fod y prif ganlyniadau yn syml ac yn hawdd eu deall. Roedd consensws cyffredinol hefyd fod y prif ganlyniadau yn dangos yn glir brif ddiben y grant a'r cymorth y mae pobl yn ei gael gan wasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai. Roedd yr adborth arall a gafwyd yn cynnwys y canlynol:

- a) Adborth yn ymwneud â chofnodi ac adrodd ar y prif ganlyniadau pan fydd defnyddwyr gwasanaethau'n symud o un prif ganlyniad i un arall (pan fyddant gyda'r un darparwr) ac yn ystod yr un cyfnod adrodd.
- b) Cwestiynau ynghylch a ddylid cofnodi prif ganlyniadau ar gyfer pobl sy'n mynd o un sofffa i'r llall neu sydd â thenantiaethau ansicr (e.e. unigolion sy'n cael eu troi allan ond nid o fewn 56 diwrnod neu unigolion nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaethau digartrefedd eto).
- c) Gofynnodd rhanddeiliaid am eglurder ynghylch a oedd yn rhaid i ddarparwyr ddewis un prif ganlyniad ac a allent ddewis nifer o brif ganlyniadau yn ystod cyfnod adrodd.

4.2 Canlyniadau Eilaidd

Teimlai'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid fod y canlyniadau eilaidd yn cyfleu'r buddiannau/canlyniadau ychwanegol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r ffaith bod y canlyniadau eilaidd wedi'u cyflwyno mewn modd cadarnhaol a'u bod yn gryno ac yn hawdd eu deall, a fyddai'n helpu gweithwyr cymorth i gael sgysiau ystyrlon â defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, codwyd rhai themâu allweddol yn ystod y digwyddiadau.

- a) **Canlyniad Eilaidd 6:** Teimlai'r rhanddeiliaid y gallai'r gair 'caethiwed' yn y canlyniad fod yn rhwystr i bobl ymgysylltu â gwasanaethau cymorth. Oherwydd yr ystyr negyddol sy'n gysylltiedig â chaethiwed, awgrymwyd y dylid defnyddio iaith sy'n canolbwyntio'n fwy ar y person.
- b) Codwyd cwestiynau ynghylch y ffaith mai canlyniadau dewisol oedd y saith canlyniad eilaidd, a gofynnwyd am eglurder ynghylch a oedd yn orfodol i unigolion gyflawni neu gofnodi o leiaf un o'r canlyniadau eilaidd.

Rhoddodd nifer bach o'r rhanddeiliaid yr adborth canlynol:

- c) **Canlyniad Eilaidd 1:** Awgrymwyd y dylid cynnwys dangosydd Defnyddwyr Gwasanaethau arall ar gyfer y canlyniad hwn er mwyn adlewyrchu achosion lle nad yw unigolion yn teimlo'n ynysig (e.e. am eu bod gyda theulu, ac ati) ond nad ydynt o bosibl yn cysylltu â'r gymuned leol. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys dangosyddion Defnyddwyr Gwasanaethau sy'n gwahaniaethu rhwng cydberthnasau â theulu a/neu blant; cydberthnasau â ffrindiau a/neu gyfoedion; a chydberthnasau â phobl

y mae unigolion yn byw gyda nhw. Yn gysylltiedig â hyn, gofynnwyd am eglurder ynghylch a oedd y canlyniad eilaidd hwn yn adlewyrchu gwasanaethau sy'n darparu cymorth cyfryngu i deuluoedd â phlant.

- d) **Canlyniad Eilaidd 2:** Dywedodd rhai darparwyr y byddent yn teimlo'n anghyfforddus yn gofyn y cwestiwn ynglŷn â pheidio ag achosi niwed emosiynol na chorfforol i eraill ('dangosydd Defnyddwyr Gwasanaethau') gan y gallai hynny fod yn amhriodol a pheri gofid i ddefnyddiwr gwasanaeth sydd wedi cael ei gam-drin neu sy'n cael ei gam-drin ar hyn o bryd, yn emosiynol neu'n gorfforol.
- e) **Canlyniad Eilaidd 3:** Teimlwyd y dylid cyflwyno 'Rheoli Arian' fel Canlyniad Eilaidd ar wahân yn hytrach nag fel dangosydd Defnyddwyr Gwasanaethau o fewn y canlyniad eilaidd hwn, gan mai dyma'r prif fath o gymorth/ymyriad sydd ei angen ar lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau fel arfer.
- f) **Canlyniad Eilaidd 5:** Cwestiynwyd y cyfeiriad at 'iechyd corfforol da' gan ei bod yn bosibl bod gan rai pobl salwch cronig neu derfynol.

4.3 Graddio ymatebion

Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynghylch y dull arfaethedig o raddio ymatebion ar gyfer canlyniadau eilaidd. Nododd rhai fod y dull graddio yn oddrychol ac, felly, y byddai'n bwysig bod gan ddarparwyr gwasanaethau ddealltwriaeth dda o'r broses sgorio a bod canllawiau clir yn cael eu darparu. Roedd y sylwadau eraill a wnaed yn cynnwys y canlynol:

- a) Roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch y cyfeiriad at Raddfa Lles Meddyliol Warwig-Caeredin - **sy'n mesur lles goddrychol** - sydd hefyd yn defnyddio'r dull graddio a gynigiwyd ar gyfer Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai.
- b) Cwestiynodd rhai rhanddeiliaid y cyfeiriad at '*Drwy'r amser*' wrth raddio ymatebion. Awgrymwyd y gellid ei newid i '*Y rhan fwyaf o'r amser*'.
- c) Nodwyd diffyg eglurder ynghylch y cyfnod amser priodol ar gyfer nodi profiadau unigolion wrth gofnodi eu hymatebion mewn perthynas â dangosyddion Defnyddwyr Gwasanaethau, er enghraifft a ddylai'r ymateb ymwneud â'r diwrnod penodol, yr wythnos ddiwethaf neu'r mis diwethaf, ac ati.
- d) Adborth ynghylch a fydd gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad i ofyn i staff awdurdodau lleol a staff cymorth tai gofnodi'r 'pellter a deithiwyd' mewn perthynas â chanlyniadau eilaidd a gofnodir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, h.y. y 'newid dros amser' (dros gyfnod penodol o amser) rhwng ymatebion graddedig ar gyfer unrhyw ganlyniadau eilaidd perthnasol i ddefnyddiwr gwasanaeth, er mwyn nodi a yw wedi gwneud unrhyw gynnydd cadarnhaol.

4.4 Sylwadau cyffredinol

- a) Cafwyd rhai sylwadau cyffredinol am bwysigrwydd rhoi canllawiau clir a hyfforddiant cyson er mwyn sicrhau bod pawb yn deall sut i roi Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai ar waith. Awgrymwyd hefyd y dylai staff newydd gael pecyn o hyfforddiant canolog a fyddai'n sicrhau bod darparwyr gwasanaethau ac awdurdodau lleol yn gweithio'n gyson.
- b) Roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r cyfeiriad at wasanaethau/cymorth 'untro' yn y prif ganlyniadau (o dan brif ganlyniad 1).
- c) Gofynnwyd am eglurder ynghylch pa mor aml y dylid cofnodi ac adrodd ar ganlyniadau rhwng yr adeg pan fydd defnyddwyr gwasanaethau yn dechrau cael cymorth a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai a'r adeg pan fyddant yn rhoi'r gorau i gael y cymorth hwnnw. Roedd yn amlwg bod anghysondeb rhwng y dulliau a ddefnyddir gan ddarparwyr cymorth ac awdurdodau lleol. Yn aml, roedd hyn yn dibynnu ar drefniadau comisiynu gwasanaethau awdurdodau lleol a'r trefniadau monitro cysylltiedig. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at y problemau y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd o ran y systemau TG a ddefnyddir ganddynt i fewnbynnu data canlyniadau, a'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau i'r systemau hynny. Awgrymwyd y byddai 'porth data' pwrpasol yn cynnig dull adrodd symlach a mwy cywir.

5. **Dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r adborth**

5.1 Er nad yw'r adroddiad cryno hwn yn rhoi ymateb i bob pwynt a godwyd, mae'r adborth wedi cael ei ystyried yn ofalus i dynnu allan themâu allweddol. Mae'r newidiadau allweddol canlynol wedi'u gwneud i'r Fframwaith Canlyniadau GCT terfynol (a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r crynodeb hwn) ac yn y canllawiau ategol.

5.2 Prif Ganlyniadau

- a) Diwygio'r categorïau â 'statws digartrefedd' yn adnodd adrodd Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai i adlewyrchu pobl sy'n mynd o un sofffa i'r llall ac sydd â thenantiaethau ansicr, lle y gallant gael cymorth drwy'r Grant Cymorth Tai.
- a) Canllawiau hyn eu diweddarau i'w gwneud yn gliriach mai dim ond un o'r prif ganlyniadau y dylai unigolion sy'n cael cymorth drwy'r Grant Cymorth Tai ei gyflawni yn ystod cyfnod adrodd. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd defnyddiwr gwasanaeth wedi gadael gwasanaethau cymorth a ddarperir drwy'r Grant Cymorth Tai ac yn dychwelyd wedi hynny am wasanaeth/cymorth 'untro' yn yr un cyfnod adrodd – yn yr achosion hyn gellir cofnodi prif ganlyniad 1 yn ychwanegol at brif ganlyniad arall (prif ganlyniad 2, 3 neu 4). Mae'r canllawiau yn ei gwneud yn gliriach, wrth gofnodi prif ganlyniadau, mai'r prif ganlyniad sy'n berthnasol i'r defnyddiwr gwasanaeth yn y cyfnod adrodd o chwe mis y dylid ei gofnodi (neu pa un bynnag yw'r prif ganlyniad diweddaraf a gofnodwyd ar yr adeg honno).

5.3 Canlyniadau Eilaidd

- a) **Canlyniad Eilaidd 6:** Ychwanegu'r term 'dibyniaeth' yn lle 'caethiwed' ac wedi nodi'n glir yn y canllawiau ei fod yn cynnwys pob math o gaethiwed ac nid camddefnyddio sylweddau yn unig, e.e. alcohol, smygu, gamblo a dibyniaethau ymddygiadol eraill.
- b) Canllawiau eu diweddaru i'w gwneud yn gliriach mai **dewislen o ganlyniadau wedi'u teilwra** yw'r canlyniadau eilaidd i'w defnyddio i ddewis y canlyniadau eilaidd sydd fwyaf perthnasol i anghenion a chynllun cymorth cyfatebol (lle y bo'n gymwys) defnyddiwr gwasanaeth. Felly, nid yw'n ofodol i unigolyn gyflawni pob un o'r canlyniadau eilaidd.
- c) **Canlyniad Eilaidd 1:** Diwygio'r dangosyddion Defnyddwyr Gwasanaethau ategol i adlewyrchu cydberthnasau cadarnhaol a/neu iach â theulu a phlentyn/plant, cydberthnasau cadarnhaol â ffrindiau a/neu gyfoedion, a chydberthnasau cadarnhaol a/neu iach â'r bobl y maent yn byw gyda nhw, er mwyn adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn cyd-fyw â phobl eraill nad ydynt yn perthyn iddynt. Wedi ychwanegu dangosydd Defnyddwyr Gwasanaethau '*Rwy'n teimlo bod gennyf gysylltiad â fy nghymuned leol*' er mwyn adlewyrchuachosion lle nad yw unigolion yn teimlo'n ynysig (e.e. am eu bod gyda theulu, ac ati) ond nad ydynt o bosibl yn cysylltu â'u cymuned leol.
- d) **Canlyniad Eilaidd 2:** Wedi newid geiriad y dangosydd '*Nid wyf yn achosi niwed emosynol na chorfforol i eraill*' fel nad yw'n peri gofid i rywun sydd wedi cael ei gam-drin neu sy'n cael ei gam-drin ar hyn o bryd. Fodd bynnag, teimlai rhai rhanddeiliaid ei bod yn bwysig cynnwys y dangosydd hwn yn gyffredinol, gan ei fod yn aml yn berthnasol i rai defnyddwyr gwasanaethau a all fod yn myfyrio ar effaith eu hymddygiad blaenorol ar eraill. Mae ein canllawiau yn pwysleisio y dylai gweithwyr cynorthwyol ddewis y dangosyddion Defnyddwyr Gwasanaethau sy'n berthnasol i'r person y maent yn ei gefnogi. Er enghraifft, os yw'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, dylai gweithwyr cymorth gymhwyso eu harbenigedd a'u barn broffesiynol eu hunain i benderfynu a ddylid defnyddio'r dangosydd hwn ai peidio.
- e) **Canlyniad Eilaidd 3:** Wedi'i wneud yn fwy eglur bod 'Rheoli Arian' wedi'i gynnwys (fel dangosydd Defnyddwyr Gwasanaethau) o fewn y canlyniad eilaidd hwn.
- f) Ailadrodd yn y canllawiau nad yw'r enghreifftiau o ymyriadau/gweithgareddau/gwasanaethau GCT ar gyfer pob canlyniad eilaidd i fod yn rhestr gynhwysfawr, ac mae gwasanaethau eraill hefyd yn ddilys os ydynt yn berthnasol.

5.4 Graddio ymatebion

- a) Defnyddiwyd dull arfaethedig o 'raddio ymatebion' ar gyfer canlyniadau eilaidd ond tynnwyd cyfeiriad at Raddfa Lles Meddyliol Warwig-Caeredin er mwyn osgoi dryswch.
- b) Darparwyd gwybodaeth ychwanegol yn y canllawiau am y cyfnod amser priodol ar gyfer nodi profiad unigolion wrth gofnodi eu hymatebion mewn perthynas â dangosyddion Defnyddwyr Gwasanaethau – newidiwyd i 'yn ddiweddar'.
- c) Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cofnodi'r pellter a deithiwyd mewn perthynas â chanlyniadau eilaidd perthnasol a gofnodir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau o'r adeg pan fyddant yn dechrau cael cymorth a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai a'r adeg pan fyddant yn rhoi'r gorau i gael y cymorth hwnnw. Mae hyn yn bwysig ar sawl lefel: ar lefel genedlaethol er mwyn dangos buddiannau ehangach y Grant Cymorth Tai; fel rhan o'r gwaith o gomisiynu a monitro gwasanaethau yn lleol; yn ogystal ag ar gyfer darparwyr gwasanaethau eu hunain i ddangos effaith eu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae goblygiadau ymarferol o ran y dull a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gofnodi ac adrodd ar y data hyn yn ymarferol a goblygiadau hynny o ran adnoddau. Felly, byddwn yn ystyried y mater hwn ymhellach yn 2023, gan gynnwys ystyried treialu dull gweithredu ar yr un pryd â rhoi Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai ar waith o fis Ebrill 2023, er mwyn llywio cynlluniau yn y dyfodol.

5.5 Sylwadau cyffredinol

- a) Mae canllawiau wedi'u cyhoeddi ym mis Ionawr 2023 a byddwn yn trefnu cyfres o sesiynau hyfforddi rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2023. Byddwn hefyd yn ystyried datblygu llawlyfr/pecyn hyfforddiant y gall darparwyr gwasanaethau gyfeirio ato yn barhaus.
- b) Rydym wedi datblygu offeryn adrodd Excel manwl i gefnogi'r gwaith peilot ar y Fframwaith Canlyniadau GCT. Bwriad yr offeryn hwn yw bod yn hawdd ei ddefnyddio a lleihau cofnodion data â llaw lle bo'n bosibl. Mae hefyd yn cynnwys crynodebau awtomatig o'r mewnbyn data. Byddwn yn cyhoeddi fersiwn diwygiedig o'r offeryn adrodd cyn ei weithredu ym mis Ebrill 2023.